

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad cyhoeddi: 27 Medi 2021

STATWS: GWEITHREDU a GWYBODAETH

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: CYNLLUN IECHYD GWAED Y GIG

Dyddiad Dod i Ben / Adolygiad: Medi 2023

I'w weithredu erbyn: Medi 2021

<p>I'w weithredu gan y Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau:</p> <p>Cadeiryddion Prif Weithredwyr Ysgrifenyddion Byrddau Ysgrifennydd Grŵp Ysgrifenyddion y Bwrdd Cyfarwyddwyr Meddygol Cyfarwyddwyr Nyrsio Cyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddorau Iechyd Cyfarwyddwr Cynllunio Timau Arennol Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd Meddygon a Nyrsys Rheoli Heintiau Prif Fferyllwyr Ysbytai</p>	<p>Er gwybodaeth:</p> <p>CC/Prif Weithredwr GIG Cymru Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru Y Prif Swyddog Gwyddonol Y Prif Swyddog Fferyllol Arweinwyr Polisi a Phroffesiwn Tîm Gweithrediadau'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (AIGC) Tîm Cyfathrebu AIGC Tîm Digidol AIGC Galw Iechyd Cymru Partneriaeth Cydwasanaethau Cymru i'w ddosbarthu i bractisau meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol a phractisau deintyddol cyffredinol</p>
--	---

Anfonir gan: Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol a Sue Tranka, y Prif Swyddog Nyrsio

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Debbie Tynen, Pennaeth Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd ac Iechyd Gwaed, Catherine Cody – Catherine.Cody@llyw.cymru 03000251443

Dogfen(nau) amgaeedig: Cynllun Iechyd Gwaed y GIG

Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru

1. Diben y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yw tynnu sylw at gyhoeddi Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru ("BHP") a ddatblygwyd gan staff ar draws sefydliadau'r GIG, gyda chefnogaeth Gyfarwyddwyr Meddygol y Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd, ac a gydlynir gan Wasanaeth Gwaed Cymru ("WBS").

Cefndir

2. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae cydrannau gwaed a gwaed yn hanfodol ac yn achub bywydau. Fodd bynnag, nid yw trallwysiadau'n ddi-risg ac mae posibilrwydd o adweithiau (rhai sy'n bygwth bywyd) neu drosglwyddo heintiau. Ceir llawer o ganllawiau, gofynion statudol ac arferion gorau mewn perthynas â chymhwysedd i roi gwaed, profi/sgrinio gwaed a chynhyrchu cynnyrch, felly ni chanolbwyntir ar y rheini yn y Cylchlythyr.
3. Mae'n hanfodol bod cydrannau gwaed a gwaed yn cael eu defnyddio dim ond pan fo angen a lle nad oes dewis arall addas arall. Felly, mae'r Cynllun yn pennu cyfeiriad o optimeiddio arferion iechyd gwaed a thrallwysio o dan dri nod craidd sy'n dilyn egwyddorion gofal iechyd darbodus:
 - helpu unigolion i reoli eu hiechyd a'u llesiant, gan osgoi ymyrraeth ddiangen;
 - defnyddio tystiolaeth a data tryloyw i lywio'r gwaith o gynllunio a gwella gwasanaethau er mwyn lleihau amrywiadau amhriodol;
 - osgoi niwed.
4. Mae'n cynnwys nifer o gamau gweithredu penodol; sut y cânt eu cyflawni; y canlyniadau disgwylidig, ac yn nodi sut y caiff llwyddiant ei fesur. Mae'r camau hyn yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed dros y 15 mlynedd diwethaf drwy'r trefniadau a roddwyd ar waith i weithredu Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed 2005 (BSQR 2005) a'r strwythur a roddwyd ar waith ar y pryd (*WHC 2005 063 WHC -2005-063.pdf – ddim yn gyfredol bellach*) i fodloni'r safonau eang ar gyfer defnyddio cydrannau gwaed yn ddiogel ac yn briodol mewn ymarfer clinigol. Cyflawnwyd yn erbyn y safonau hyn drwy waith cydweithredol rhwng ymarferwyr mewn ysbytai a Thîm Trallwysio Gwaed Gwell WBS. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys safoni prosesau ac arferion; addysg; archwilio; a meincnodi ymarfer clinigol ac mewn labordai.
5. O ystyried bod cynhyrchu'r Cynllun wedi bod yn ymdrech gydweithredol, dylai pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth fod yn gweithio tuag at ei roi ar waith a sicrhau bod y nodau a'r ymrwymadau strategol cyffredinol yn eu Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Sefydlwyd grŵp arweinyddiaeth cenedlaethol gan WBS i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Cynllun drwy raglen waith glir ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o GIG Cymru.

CYNLLUN IECHYD GWAED 2021



Crynodeb Gweithredol

Mae trallwysïadau gwaed a chyfansoddion gwaed yn driniaethau achub bywyd hanfodol a ddefnyddir bob dydd o fewn GIG Cymru. Fodd bynnag, nid yw trallwysïad yn weithdrefn heb risgiau ac mae posibilrwydd bob amser o adweithiau trallwysïad neu drosglwyddo haint. Felly mae'n hanfodol bod cyfansoddion gwaed a gwaed ond yn cael eu rhoi pan fo angen a lle nad oes dewis arall addas yn bodoli.

Mae'r Cynllun Iechyd Gwaed (BHP) wedi'i ddatblygu er mwyn gosod y cyfeiriad ar gyfer optimeiddio arferion iechyd a thrallwysïo gwaed yng Nghymru. Gwneir hyn yn unol â thri nod strategol.

Gellir diffinio'r nodau strategol fel a ganlyn:

1. Cefnogi unigolion i reoli eu hiechyd a'u lles gwaed, gan osgoi ymyrraeth ddiangen
2. Defnyddio tystiolaeth a data i lywio cynllunio, gwella arfer a lleihau amrywioldeb
3. Rhoi diogelwch ac ansawdd wrth wraidd gofal gan leihau defnydd amhriodol a chefnogi arloesi

Mae'r nodau hyn yn tynnu ar egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015¹, Gofal Iechyd Darbodus² ac egwyddorion Rheoli Gwaed Cleifion³ i ddarparu strategaeth drallwysïad integredig i Gymru.

Mae'r BHP yn diffinio camau penodol i gynorthwyo'r ddarpariaeth gan gynnwys canlyniadau disgwylïedig a mesurau llwyddiant. Mae'r camau hyn yn adeiladu ar gynnydd sylweddol dros y pymtheng mlynedd diwethaf yn dilyn

gweithredu Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed (2005)⁴

Cyflawnwyd y cynnydd hwn yn bennaf trwy ddull arweinyddiaeth gydweithredol gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gyflawni'r canlyniadau.

O ystyried natur gydweithredol y BHP, disgwylir bydd pob Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth yng Nghymru yn gweithio tuag at ei weithredu gan sicrhau bod ei nodau strategol yn cael eu hymgorffori ym mhob un o'u Cynlluniau Tymor Canolig Integredig).

Grŵp arweinyddiaeth cenedlaethol: Mae Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol Iechyd Gwaed (BHNOG) wedi'i sefydlu i oruchwylio cyflwyno'r BHP a gwireddu'r canlyniadau disgwylïedig.

Mae'r BHP hwn yn diweddarar'r BHP WHC/2017/028⁵ blaenorol, a dylid ei ddefnyddio ar y cyd â WHC (2002) 137⁶ a WHC (2007) 042⁷ ac mae'n disodli WHC (2005) 063⁸

Trosolwg

Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, darperir gwaed gan roddwyr gwaed gwirfoddol sy'n rhoi o'u gwirfodd gan wybod y bydd y gwaed yn cael ei ddefnyddio i drin cleifion.

Mae'r BHP yn nodi cyfeiriad ymarfer trallwysiad gwaed yng Nghymru. Fe'i cynhyrchwyd gan y GIG a bydd dan berchnogaeth GIG Cymru.

Noder: Mae yna gyfoeth o ofynion statudol a chanllawiau arfer gorau o ran yr hawl i roi gwaed, profi/sgrinio gwaed a gweithgynhyrchu cyfansoddion felly mae'r rhain y tu allan i gynnwys y ddogfen hon.

Bydd y BHP yn canolbwyntio ar egwyddorion Rheoli Gwaed Cleifion (PBM) gan gynnwys pwysigrwydd cynnal iechyd gwaed da, a'r defnydd priodol o gyfansoddion gwaed mewn lleoliad clinigol.

Bydd y BHP yn anelu at nodi camau craidd i hwyluso arfer gorau. Bydd casglu data craidd yn mesur llwyddiant.

Bydd yn cefnogi staff clinigol i wneud y penderfyniad cywir i osgoi trallwysiad diangen gan adeiladu ar yr egwyddor o 'Waed iawn, Claf iawn, Amser iawn'.



Bydd y BHP yn adeiladu ar yr egwyddor o
'Waed iawn, Claf iawn, Amser iawn'

Cyd-destun/Cefndir

Mae poblogaeth Cymru yn heneiddio. Mae Cymru lachach⁹ a gyhoeddwyd yn 2016 yn adeiladu ar athroniaeth gofal iechyd darbodus. Mae'r pwyslais ar gefnogi pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, gan osgoi ymyrraeth ddiangen, ac fe'i mabwysiadwyd fel nod strategol cyntaf y BHP

Mae'r boblogaeth yn byw yn hirach a bydd llawer yn dioddef o gyflyrau clinigol cronig a chymhleth. Ar hyn o bryd, defnyddir cyfansoddion gwaed mewn llwybrau gofal clinigol ar gyfer ystod o gyflyrau; y boblogaeth sydd fwyaf tebygol o ddioddef y cyflyrau hyn yw'r rhai 65 oed neu'n hŷn, gyda'r rhain i gyfrif am dros 50% o'r holl waed a drallwysir¹⁰. Er y bu gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o waed dros y 10 mlynedd diwethaf, mae rhai cyfansoddion gwaed sy'n cynyddu o ran defnydd ac yn dod yn fwy o her i'w cyflenwi.

Yn ogystal, mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn effeithio ar y cyflenwad. Wrth i'r gronfa bresennol o roddwyr dyfu'n hŷn, mae llai yn gallu rhoi. Oni bai bod rhoddwyr ifanc yn cael eu recriwtio yn eu lle, mae risg na fydd y cyflenwad yn cadw i fyny â'r galw, hyd yn oed os yw hwn yn lleihau. Er bod rhoi gwaed y tu allan i gynnwys y ddogfen hon mae'n ystyriaeth fawr i'r cyflenwad gwaed.

Mae gwelliannau mewn arferion trallwysu trwy amrywiaeth o raglenni archwilio ac addysg wedi digwydd,

fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol o hyd yn y defnydd o waed ledled Cymru. Er y gallai hyn fod yn gysylltiedig â demograffeg cleifion i rai byrddau iechyd, mae'n amlwg bod lle i wella trwy addysg a mynd i'r afael ag arfer gwaed/hen ffasiwn.

Mae tystiolaeth helaeth i gefnogi'r risgiau cysylltiedig o drallwysiad. Mae'r rhain yn cynnwys; risg uwch o haint, arosiadau hirach yn yr ysbyty a mwy o farwolaethau o ganlyniad i driniaeth lawfeddygol.¹¹

Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, pan nodir trallwysiad, gall trallwysiad neu oedi trallwysiad achosi niwed i gleifion¹² (SHOT).

Mae'r BHP yn cymeradwyo egwyddorion Rheoli Gwaed Cleifion (PBM) sy'n canolbwyntio ar ddull amlddisgyblaethol o weithredu arfer trallwysiad ar sail tystiolaeth. Mae PBM yn ymgorffori tair prif egwyddor:

1. Cyn-optimeiddiaeth claf
2. Lleihau colli gwaed
3. Cadwraeth gwaed

Mae gweithredu egwyddorion PBM yn arwain at welliant mewn iechyd y gwaed ac felly'n lleihau'r galw am waed gan roddwyr.

Gan ddefnyddio egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus a PBM, nod BHP 2020 yw dod â momentwm newydd i welliannau o ran rheoli iechyd gwaed a'r defnydd priodol o waed.

Nodau Strategol BHP

1. Cefnogi unigolion i reoli eu hiechyd a'u lles gwaed, gan osgoi ymyrraeth ddiangen

Mae'r nod hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu mewn partneriaeth, driniaeth unigol, bwrpasol ar gyfer cleifion sydd â'r potensial i fod angen trallwysiad; gweithredu er mwyn lleihau risg, a lle na ellir ei osgoi, i leihau'r cynhyrchion gwaed sy'n angenrheidiol.




Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

- ◆ Cydweithio gydag arweinwyr anaemia i ddatblygu llwybr anaemia cyn-lawdriniaethol Cymru gyfan ar gyfer optimeiddiaeth anaemia
- ◆ Cydweithio â grwpiau cleifion a phoblogaeth penodol i wella ymwybyddiaeth o anemia diffyg haearn gan sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn llwybrau gofal perthnasol
- ◆ Datblygu canllawiau cenedlaethol, protocolau a, lle bo hynny'n briodol, rhaglenni wedi'u targedu ar gyfer trallwysiad y tu allan i leoliad yr ysbyty aciwt e.e. yn y gymuned, hosbisau ac ati.
- ◆ Addysgu cleifion a staff clinigol i hyrwyddo sgysiau effeithiol ynghylch iechyd gwaed yr unigolion a chefnogi gwneud penderfyniadau trallwysiad clinigol
- ◆ Cydweithio ar draws y GIG gan gynnwys gofal sylfaenol i hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus i gefnogi ymgysylltiad y boblogaeth a pherchnogaeth dros eich iechyd gwaed eich hun

2. Defnyddio tystiolaeth a data i lywio cynllunio, gwella arfer a lleihau defnydd amhriodol

Mae'r nod hwn yn canolbwyntio ar gefnogi a grymuso timau trallwysiad a chydweithwyr clinigol trwy Bwyllgorau Trallwysio Gwaed Ysbytai (HTCs) Byrddau Iechyd i ddarparu arferion trallwysiad effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gleifion. Mae egwyddorion Rheoli Gwaed Cleifion a Defnydd Darbodus yn alinio i gyflawni hyn yn y modd mwyaf priodol.




Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

- ♦ Cydweithio â Byrddau Iechyd HTCs i gefnogi cynllunio a rheoli'r gadwyn gyflenwi gwaed yn effeithiol gan nodi egwyddorion arfer gorau ar gyfer rheoli stoc a defnyddio gwaed
- ♦ Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â data mater a gwastraff gan weithio gyda HTCs i adolygu a chytuno ar fesurau perfformiad a chanlyniadau
- ♦ Cydweithio â HTCs i ddarparu rôl arwain strategol wrth ymgorffori amcanion BHP a BHNOG ar waith ar draws y byrddau iechyd
- ♦ Nodi a gweithio ar y cyd â'r arbenigeddau sy'n defnyddio'r mwyaf o waed i dargeddu ymyriadau arfer gorau a hyrwyddo mesurau cadwraeth gwaed
- ♦ Gweithio gyda grwpiau clinigol perthnasol i hyrwyddo defnydd priodol o waed gan ymgorffori PBM ac egwyddorion gofal iechyd darbodus yn ymarferol

3. Rhoi diogelwch ac ansawdd wrth wraidd gofal, gan leihau amrywioldeb a chefnogi arloesedd

Bydd y nod hwn yn defnyddio archwilio a data i sicrhau diogelwch ac ansawdd ein cyfansoddion a'n prosesau Pan fo'n briodol byddwn yn datblygu set o safonau yng Nghymru gyfan gan ddilyn yr egwyddorion 'Unwaith i Gymru' a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru (LIC). Bydd lleihau amrywiad yn caniatáu i staff sy'n gweithio ym maes trallwysio ledled Cymru symud yn ddi-dor ar draws ac o fewn byrddau iechyd heb gael effaith ar ddiogelwch



Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

- ◆ Sefydlu diwylliant adrodd digwyddiadau cadarn gan ddefnyddio systemau adrodd cenedlaethol e.e. SHOT/SABER a gweithredu prosesau effeithiol i gefnogi dull gwersi a ddysgwyd
- ◆ Hyrwyddo cyfranogiad gweithredol mewn rhaglenni archwilio, yn lleol ac yn genedlaethol i feintoli canlyniadau BHP a fwriedir. Meincnod yn erbyn sefydliadau eraill ledled y DU i gyflawni arfer gorau
- ◆ Datblygu strategaeth Addysg Iechyd Gwaed ar gyfer yr holl staff sy'n rhan o'r broses drallwysio. Cynnwys dulliau addysg arloesol e.e. ap cyfansoddion gwaed
- ◆ Cefnogi datblygiad ac arloesi trwy hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a phrosesau blaengar
- ◆ Datblygu gweithdrefnau, canllawiau a pholisïau safonedig i leihau amrywiad amhriodol a hyrwyddo dull cyson ledled Cymru

Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol Iechyd Gwaed (BHNOG)

Sefydlwyd y BHNOG yn 2017 i oruchwylio gweithrediad y BHP.

Ers ei sefydlu mae'r BHNOG wedi chwarae rhan allweddol yn arweinyddiaeth strategol trallwysiad yng Nghymru.

Yn cynnwys cynrychiolwyr o Bwyllgorau Trallwysio Gwaed Ysbytai (HTC) ar gyfer pob un o'r Byrddau Iechyd yng Nghymru ac arbenigwyr pwnc ar ystod o arbenigeddau clinigol, mae'r BHNOG yn darparu rôl oruchwylio i ddarparu arfer trallwysiad trwy ddull arweinyddiaeth gydweithredol.

Mae'r BHNOG wedi sefydlu pum ffrwd gwaith allweddol sy'n cyd-fynd â thri nod strategol y BHP. Sef:

1. Defnydd priodol o O D Neg
2. Defnydd priodol o blatennau
3. Defnyddio'r cyfaint lleiaf o waed sydd ei angen ac osgoi Gorlwytho'r Cylchrediad a gysylltir â Thrallwysio
4. Rheoli anaemia i leihau'r defnydd o waed
5. Defnyddio data

Mae'r ffrydiau gwaith BHNOG hefyd yn cydamseru â rhaglenni arfer gorau trallwysio gwaed eraill ledled y DU fel Choosing Wisely¹³ a Chanllawiau Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) NG2414 ar gyfer arfer trallwysio.

Cyfeiriadau

1. Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015): <https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau>
2. Egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus: <https://llyw.cymru/gofal-iechyd-darbodus>
3. Patient Blood Management Consensus Conference: <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/vox.12852>
4. Blood Safety & Quality Regulations: <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2005/50/contents/made>
5. Cynllun Iechyd Gwaed WHC/2017/028: <https://llyw.cymru/cynllun-iechyd-gwaed-gig-cymru-whc2017028>
6. WHC (2002) 137: <http://www.wales.nhs.uk/documents/whc2002-137-e.pdf>
7. WHC (2007) 042: [http://www.wales.nhs.uk/documents/WHC\(2007\)0421.pdf](http://www.wales.nhs.uk/documents/WHC(2007)0421.pdf)
8. WHC (2005) 063: http://www.wales.nhs.uk/documents/WHC_2005_063.pdf
9. Cymru Iachach (2016): <https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol>
10. Medical Use of Red Cells (NCA data 2019): <https://wbs-intranet.cymru.nhs.uk/bht/wp-content/bht-uploads/sites/4/2021/01/Executive-Report-Medical-Use-of-Red-Cells.-Final-docx.pdf>
11. Klein A.A. et al (2016) <https://associationofanaesthetists-publications.onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/anae.13423>
12. SHOT: <https://www.shotuk.org/>
13. Choosing Wisely: <http://www.choosingwisely.co.uk/about-choosing-wisely-uk/>
14. Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) NG 24: Canllawiau <https://www.nice.org.uk/search?q=NG24>